


# Cystadleuaeth Bydd Wych, Ailgylcha ("Yr Hyrwyddiad")

# Telerau ac Amodau

**Gwybodaeth gyffredinol**

Mae cystadleuaeth Bydd Wych. Ailgylcha. yn gystadleuaeth am ddim, sy'n agored i blant rhwng 5 ac 11 mlwydd oed sy'n breswyl yng Nghymru.

Mae'r gystadleuaeth ar agor o **25 Medi 2023** a rhaid cyflwyno pob ymgais erbyn 23:59 ar **30 Tachwedd 2023.** Ni fydd ymgeisiau a dderbynnir ar ôl yr amser hwn yn rai dilys ac ni fyddant yn cael eu cynnwys yn y gystadleuaeth.

Bydd yr enillwyr yn cael eu dewis o bob cynnig cymwys ac fe'u hysbysir erbyn **7 Rhagfyr 2023.**

Mae'r canlynol yn cyfrif fel un ymgais: ffotograff neu sgan o sticer neu boster cystadleuydd.

Caiff rhiant neu ofalwr plentyn gyflwyno eu hymgais:

- drwy www.cymruynailgylchu.org.uk
- drwy ebostio walesrecycles@wrap.org.uk neu
- drwy ei rannu ar Instagram neu Twitter gan ddefnyddio #YmgyrchGwych neu #MightyMission os dymunant.

Caiff plant unigol cyflwyno cymaint o esiamplau o'u gwaith ag y dymunant. Caiff plant weithio ar eu cynnig ar eu pen eu hunain neu weithio gyda sibling neu blentyn arall sy'n byw ar eu haelwyd.

O gymryd rhan yn yr Hyrwyddiad, ystyrir eich bod wedi derbyn y telerau ac amodau hyn felly darllenwch nhw'n ofalus cyn cymryd rhan yn yr Hyrwyddiad.

**Creu ymgais**

I gymryd rhan, rhaid i blentyn:

- Ddefnyddio'r templed sticer Bydd Wych a ddaw adref o'r ysgol (neu label gwag) i ddylunio gwaith graffeg sy'n dangos sut gall eitemau o wastraff bwyd anochel bweru eu hoff ddyfeisiau trydanol.
- Rhoi'r sticer ar eich cadi gwastraff bwyd (neu ar eich oergell neu gwpwrdd)
- Tynnu ffotograff o'r sticer.

Os nad oes gennych chi dempled sticer neu label gwag, gall eich plentyn ddylunio poster yn hytrach:

- Defnyddio papur gwag i greu poster sy'n dangos sut gall eitemau o wastraff fwyd anochel bweru eu hoff ddyfeisiau trydanol.
- Rhoi'r poster i fyny yn eich cegin.
- Tynnu ffotograff o'r poster.

Gellir cyflwyno sticeri neu bosteri ar bapur o unrhyw faint. Gall ymgeiswyr ddefnyddio unrhyw ddeunyddiau celf a chrefft yr hoffent, yn cynnwys pinnau ffelt, creonau pensil, creonau cwyr, paent neu ludwaith. Gellir eu dylunio gan ddefnyddio meddalwedd cyfrifiadur.

Mae'n rhaid i sticeri neu bosteri beidio â chynnwys enwau llawn yr ymgeiswyr – dim ond eu henw cyntaf, ysgol ac oedran.

Rhaid i bosteri a sticeri beidio cynnwys ffotograffau nac enwau pobl go iawn.

Rhaid i bosteri a sticeri beidio cynnwys enwau brandiau na logos.

Rhaid ichi wneud yn siŵr bod unrhyw lun/ffotograff y byddwch yn ei gyflwyno wedi'i dynnu gyda chaniatâd unrhyw un sydd wedi'i gynnwys ynddo ac nad yw'n tresmasu ar hawliau unrhyw drydydd parti. Dylai unrhyw luniau sy'n cynnwys plant gael caniatâd eu rhiant/gwarcheidwad. Ni ddylai darluniau a gyflwynir gynnwys unrhyw enwau neu logos brand (heblaw am WRAP / Recycle Now).

**Cyflwyno ymgais**

Rhaid bob ymgais cael eu cyflwyno gan riant neu ofalwr.

Bydd gofyn i'r oedolyn sy'n cyflwyno'r ymgais roi eu gwybodaeth gyswllt eu hunain, a fydd yn cael ei ddefnyddio i gysylltu â hwy pe byddai unrhyw ymholiadau am yr ymgais, neu i'w hysbysu os bydd ymgais eu plentyn yn llwyddiannus.

Dylai pob ymgais gynnwys enw(au) cyntaf, oedran ac ysgol yr ymgeisydd yn unig.

Mae uchafswm maint ffeil o 10MB ar gyfer ffotograffau a gyflwynir drwy'r wefan neu ebost at walesrecycles@wrap.org.uk

O gyflwyno ymgais i gystadleuaeth Bydd Wych. Ailgylcha., rydych yn cadarnhau ar gyfer pob ymgais mai eich plentyn yw unig awdur y gwaith ac mai ei gwaith gwreiddiol hwy ydyw.

Ni fydd yr Hyrwyddwr yn atebol am unrhyw fethiant i dderbyn ceisiadau ac nid yw'n gyfrifol am geisiadau coll, gohiriedig, annarllenadwy, llygredig, difrodedig, anghyflawn neu annilys fel arall.

**Dewis enillwyr**

Bydd yr enillwyr yn cael eu dewis o blith yr holl ymgeisiau cymwys a dderbynnir a byddant yn cael eu beirniadu gan banel sy'n cynnwys staff WRAP yn seiliedig ar eu creadigrwydd, eglurder ac effaith eu neges.

Hysbysir yr enillwyr naill ai trwy ebost neu trwy'r cyfrif ar y cyfrwng cymdeithasol a ddefnyddiwyd i bostio eu hymgais erbyn 17:00 BST ar **7 Rhagfyr 2023.** Mae penderfyniad y beirniaid yn derfynol ac ni chymerir rhan mewn unrhyw ohebiaeth bellach.

**Gwobrau**

**Folly Farm**

Bydd gwobr yr enillydd yn cynnwys tocyn mynediad diwrnod teulu ar gyfer 4 o bobl i Folly Farm, yn amodol ar argaeledd. Yn ddilys am ymweliad un diwrnod yn unig o fewn y cyfnod 12 mis o'r dyddiad y'i cyhoeddir. Gellir defnyddio'r tocyn teulu ar unrhyw ddiwrnod y bydd Folly Farm ar agor ond mae amrywiadau tymhorol i'r oriau agor ar waith, felly gwiriwch ar wefan Folly Farm www.folly-farm.co.uk am restr lawn o'u horiau agor cyn ichi ymweld. Ni ellir cyfnewid na throsglwyddo'r wobr ac ni chaniateir ei chyfnewid am arian parod na gwobrau eraill.

**Pentre Peryglon**

Bydd y wobr yn cynnwys un tocyn teulu ar gyfer hyd at 4 o bobl i ymweld â Phentre Peryglon. Mae'r tocyn yn ddilys yn ystod gwyliau ysgol lleol hyd 5 Ebrill 2024, yn amodol ar argaeledd, (nid yw Pentre Peryglon ar agor ar benwythnosau na gwyliau banc). Ni ellir cyfnewid na throsglwyddo'r wobr ac ni chaniateir ei chyfnewid am arian parod na gwobrau eraill. I archebu'r ymweliad, bydd angen i enillydd y wobr ffonio Pentre Peryglon ar 01745 850414.

**Meadows Farm Village**

Mae'r daleb hon yn ddilys i ddau oedolyn a dau blentyn ac mae'n amodol ar argaeledd. Taleb ar gyfer mynediad cyffredinol yn unig yw hon, nid yw'n cynnwys mynediad i unrhyw un o'n dyddiau Digwyddiadau. Cysylltwch â meadows.admin@playworks-intranet.com i hawlio eich gwobr.

**Plantasia Tropical Zoo**

**Tocyn Teulu**

Mae'r tocyn teulu hwn yn ddilys i ddau oedolyn a dau blentyn ymweld â Plantasia Tropical Zoo tan 30 Tachwedd 2024, yn amodol ar argaeledd. Nid yw'r tocyn yn ddilys ar ddyddiau digwyddiadau arbennig a gynhelir yn y sŵ, a caiff y rhain eu hyrwyddo ar ein tudalen digwyddiadau: https://www.plantasiaswansea.co.uk/whats-on/ Ni ellir cyfnewid na throsglwyddo'r wobr ac ni chaniateir ei chyfnewid am arian parod na gwobrau eraill. Bydd yr enillydd yn derbyn y tocyn teulu yn y post, a gallant drefnu eu hymweliad drwy ddewis y dyddiad ac archebu'r opsiwn tocynnau 'Free Passes' ar gyfer dau oedolyn a dau blentyn a dod â'r tocyn gyda nhw i'w ddangos wrth gyrraedd ar y diwrnod. Dolen archebu uniongyrchol: https://fareharbor.com/embeds/book/plantasiaswansea/items/313070/?full-items=yes&flow=585002

**Gweithdy Eco-ryfelwyr**

Mae'r Gweithdy Eco-ryfelwyr ar gyfer 30 o blant a'u hathro, am sesiwn bore sy'n dechrau'n brydlon am 10:30yb, ac sy'n cynnwys rhyddid i grwydro'r Plantasia Tropical Zoo ar ôl cinio. Bydd angen i blant ddod â phecyn bwyd. Mae'r Gweithdy Eco-ryfelwyr yn ddilys tan fis Rhagfyr 2024, yn amodol ar argaeledd, yn ystod tymor ysgol yn unig. Ni ellir cyfnewid na throsglwyddo'r wobr ac ni chaniateir ei chyfnewid am arian parod na gwobrau eraill. I archebu'r ymweliad, bydd angen i'r athro yn yr ysgol fuddugol anfon ebost at plantasia@parkwood-leisure.co.uk neu ffonio 01792 474 555.

**Cefn Mably Farm Park**

Mae'r tocyn teulu hwn yn ddilys tan 30 Tachwedd 2024. Gellir defnyddio'r tocyn unrhyw ddiwrnod yr wythnos, mae angen archebu ymlaen llaw ac ni ellir cyfnewid na throsglwyddo'r tocyn ac ni chaniateir ei gyfnewid am arian parod na gwobrau eraill.

**Dan-yr-Ogof – The National Showcaves Centre for Wales**

Mae'r tocyn teulu hwn yn ddilys o 1 Ebrill 2024 tan 30 Medi 2024. Gwiriwch argaeledd a thelerau ac amodau eraill drwy ymweld â'r wefan www.showcavesbookings.co.uk Cyn ichi archebu eich ymweliad, dylech naill ai ffonio neu ebostio'r National Showcaves gan nad ydynt ar agor bob diwrnod o'r wythnos. Ffoniwch 01639 730 284 neu ebostiwch: info@showcaves.co.uk.
Bydd rhiant neu ofalwr cyswllt y plentyn buddugol yn cael eu hysbysu drwy ebost erbyn **7 Rhagfyr 2023** (gan ddefnyddio'r manylion ebost a ddarparwyd gan y rhiant neu ofalwr ar y ffurflen gyflwyno) a bydd eu gwobr yn cael ei darparu o fewn un mis o gyhoeddi'r enillwyr.

Rhaid i'r enillydd ddarparu prawf adnabod i'r Hyrwyddwr a phrawf o'u cyfeiriad cartref i gadarnhau eu bod yn gymwys cyn iddynt gael eu cadarnhau fel enillydd a chyn trefnu i'r wobr gael ei danfon.

Ni fydd arian parod na gwobrau amgen ar gael.

Gwobrau heb eu hawlio: os, am ba bynnag reswm, na ellir cysylltu â'r enillydd am un mis ar ôl cyhoeddi'r enillwyr, neu na allant gasglu'r wobr, bydd enillydd gwahanol yn cael ei ddewis.

Nid yw'r Hyrwyddwr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r wobr nad ydynt wedi'u cynnwys yn benodol yn y wobr.

Ni fydd trefnwyr y gystadleuaeth yn gyfrifol am unrhyw fethiant gan enillydd gwobr i ddefnyddio'r wobr a benodwyd.

Ceidw WRAP yr hawl o fewn eu disgresiwn rhesymol i gyfnewid unrhyw rodd, gwobr neu eitem am wobr neu eitem o'r un gwerth neu werth mwy.

**Cyhoeddusrwydd**

O gymryd rhan yn y gystadleuaeth, mae rhieni / gofalwyr yn cytuno i fanylion yr enillwyr (enw cyntaf, ysgol ac oedran) a'u hymgeisiau gael eu rhannu drwy'r wefan Action Pack www.theactionpack.co.uk, gwefan Cymru yn Ailgylchu www.cymruynailgylchu.org.uk a sianeli cysylltiedig ar y cyfryngau cymdeithasol.

Ceidw WRAP yr hawl i gyhoeddi ymgeisiau fel y gwelir yn briodol gan ddefnyddio enw cyntaf y plentyn, enw'r ysgol a'i oedran. Gallai hyn gynnwys, ond nid yw'n neilltuedig i, wefannau Action Pack, WRAP neu Recycle Now, a thudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol y mae WRAP yn eu rheoli, a deunyddiau oddi ar lein.

O gyflwyno gwaith, mae athrawon yn rhoi eu cymeradwyaeth i waith eu disgyblion gael eu rhannu yn yr oriel ar-lein. Dim ond enwau cyntaf disgyblion fydd yn ymddangos yn yr oriel. Gallai fod yn ofynnol i'r enillwyr gymryd rhan mewn cyhoeddusrwydd sy'n gysylltiedig â'r rhaglen.

Bydd yn ofynnol i rieni neu warcheidwaid roi caniatâd i enw cyntaf, ysgol a thref breswyl yr enillwyr gael eu defnyddio at ddibenion cyhoeddusrwydd. Rhaid i'r rhiant neu ofalwr cyswllt gydnabod yr ebost a sicrhau caniatâd o fewn 72 awr.

Os na chaiff cydnabyddiaeth ei dderbyn erbyn y dyddiad hwn, neu os na roddir caniatâd, bydd enillwyr newydd yn cael eu dewis.

Gallai fod yn ofynnol i'r enillwyr gymryd rhan mewn cyhoeddusrwydd sy'n gysylltiedig â'r rhaglen.

**Arall**

Yr hyrwyddwr yw WRAP (The Waste and Resources Action Programme), Sefydliad Elusennol Corfforedig, ei Rif Elusen y DU yw: 1159512, a'i gyfeiriad yw Second Floor, Blenheim Court, 19 George Street, Banbury, OX16 5BH (www.wrap.org.uk).

Bydd WRAP yn casglu'r wybodaeth bersonol yr ydych wedi'i ddarparu at ddibenion y gystadleuaeth yn unig. Gallwch ddod o hyd i fanylion sut mae WRAP yn cadw ac yn prosesu eich gwybodaeth bersonol yn ei **Bolisi Preifatrwydd**.

Dim ond yr Hyrwyddwr fydd yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch. Ni chaiff fyth ei ddarparu i drydydd parti oni bai ein bod wedi'n hymrwymo yn ôl y gyfraith i ddatgelu gwybodaeth. Gweler ein polisi preifatrwydd https://walesrecycles.org.uk/cy/polisi-preifatrwydd neu https://walesrecycles.org.uk/privacy-policy am fanylion pellach. Bydd yr Hyrwyddwr yn defnyddio eich manylion cysylltu i gysylltu â chi dim ond os cewch eich dewis fel enillydd ac i drefnu danfon eich gwobr; bydd yn cael ei gadw am gyfnod o un flwyddyn a'i ddileu wedi hynny, neu gellir ei ddileu ar eich cais drwy ebostio walesrecycles@wrap.org.uk, pa bynnag fydd yn digwydd gyntaf.

Mae'r gystadleuaeth hon ar agor i drigolion Cymru yn unig. Ni chaniateir i gyflogeion WRAP, partner/iaid sy'n rhan o'r gystadleuaeth, nac aelodau o'u teuluoedd nac unrhyw un arall sy'n gysylltiedig â'r gystadleuaeth mewn unrhyw ffordd neu sy'n helpu i drefnu'r gystadleuaeth gymryd rhan ynddi.

O gymryd rhan yn y gystadleuaeth, ystyrir eich bod wedi derbyn y telerau ac amodau hyn felly darllenwch nhw'n ofalus cyn cymryd rhan.

Rhaid i'r enillwyr ddarparu prawf adnabod i'r Hyrwyddwr a phrawf o'u cyfeiriad cartref i gadarnhau eu bod yn gymwys cyn iddynt gael eu cadarnhau fel enillwyr terfynol a chyn trefnu i'r wobr gael ei danfon. Nid yw'r Hyrwyddwr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r wobr nad ydynt wedi'u cynnwys yn benodol yn y wobr.

Ceidw WRAP yr hawl i newid neu ganslo'r gystadleuaeth hon ar unrhyw adeg a heb roi rhybudd ymlaen llaw, os bydd yn penderfynu bod hynny'n angenrheidiol, neu os bydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth yn codi.

Ni fydd yr Hyrwyddwr yn atebol am unrhyw fethiant i dderbyn ceisiadau ac nid yw'n gyfrifol am geisiadau coll, gohiriedig, annarllenadwy, llygredig, difrodedig, anghyflawn neu annilys fel arall.

Nid yw'r Hyrwyddwr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddifrod, colled, rhwymedigaethau, anaf neu siom a achoswyd neu a ddioddefwyd o ganlyniad i gymryd rhan yn y gystadleuaeth neu dderbyn y wobr. Ni fydd unrhyw beth yn eithrio atebolrwydd yr Hyrwyddwr am farwolaeth neu anaf personol o ganlyniad i'w esgeulustod.

Bydd penderfyniad yr Hyrwyddwr ym mhob mater sy'n ymwneud â'r gystadleuaeth yn derfynol ac ni chymerir rhan mewn unrhyw ohebiaeth bellach.

Nid yw'r Hyrwyddiad wedi'i noddi, ei gymeradwyo, ei weinyddu na'i gysylltu â Facebook, Instagram na Twitter mewn unrhyw ffordd. I'r Hyrwyddwr yn unig rydych

yn darparu eich gwybodaeth. Bydd yr Hyrwyddwr yn prosesu unrhyw wybodaeth bersonol yr ydych yn ei ddarparu iddo mewn cysylltiad â'r Hyrwyddiad yn unig ac yn unol â'i Bolisi Preifatrwydd sydd ar gael yma https://walesrecycles.org.uk/cy/polisi-preifatrwydd neu https://walesrecycles.org.uk/privacy-policy

Rydych yn cytuno i'r Hyrwyddwr ail-bostio, aildrydar, cyhoeddi a defnyddio'r llun/ffotograff neu gynnwys arall a ddarparwyd gennych drwy ichi gymryd rhan yn yr Hyrwyddiad (gydag unrhyw sylwadau a gwybodaeth ategol fel eich enw proffil a llun proffil neu hebddynt) mewn ffyrdd eraill. Rydych yn cytuno i'r Hyrwyddwr wneud hyn trwy'r un llwyfan(nau) y gwnaethoch bostio neu rannu'r llun/ffotograff neu gynnwys arall arno, yn ogystal â rhwydweithiau cymdeithasol a llwyfannau marchnata digidol eraill y mae'r Hyrwyddwr yn eu defnyddio, ac ar wefannau'r Hyrwyddwr cyhyd ag y mae'r Hyrwyddwr yn barnu ei fod yn briodol.

Rydych yn cydnabod, o gymryd rhan yn yr Hyrwyddiad, eich bod yn eithrio eich holl hawliau i adolygu, cymeradwyo neu dderbyn rhybudd ynghylch defnydd yr Hyrwyddwr o'r llun/ffotograff neu gynnwys arall ac rydych yn cytuno i eithrio'r holl hawliau moesol ac i beidio eu mynnu (e.e. yr hawl i gael eich enwi fel awdur) neu hawliau tebyg i'r cynnwys hwnnw.

Bydd unrhyw ymgais gyda chynnwys sarhaus neu enynnol neu sy'n torri hawlfraint yn cael eu pennu'n annilys.

Nid yw'r Hyrwyddwr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddifrod, colled, rhwymedigaethau, anaf neu siom a achoswyd neu a ddioddefwyd o ganlyniad i gymryd rhan yn yr Hyrwyddiad neu dderbyn y wobr. Ni fydd unrhyw beth yn eithrio atebolrwydd yr Hyrwyddwr am farwolaeth neu anaf personol o ganlyniad i'w esgeulustod.

Os bydd unrhyw ddarpariaeth o'r telerau a'r amodau hyn yn cael eu gwneud yn annilys gan unrhyw gyfraith, rheol, gorchymyn neu reoleiddio unrhyw lywodraeth, neu drwy benderfyniad terfynol unrhyw lys ag awdurdodaeth gymwys, ni fydd yr annilysrwydd hwnnw yn effeithio ar orfodadwyedd unrhyw ddarpariaethau eraill.

Llywodraethir y gystadleuaeth hon gan Gyfraith Lloegr ac mae'n destun awdurdodaeth unigryw llysoedd Lloegr. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, anfonwch ebost at walesrecycles@wrap.org.uk